

CRYNODEB O GYNLLUN STRATEGOL CYNGOR GWYNEDD 2013 -17



Mae'r ddogfen hon yn grynodeb o Gynllun Strategol Cyngor Gwynedd 2013 - 17.

Y Cynllun Strategol yw prif gynllun Cyngor Gwynedd. Pwrpas y cynllun yw gosod gweledigaeth a blaenoriaethau'r Cyngor hyd at 2017 a disgrifio'r hyn bydd y Cyngor yn ei wneud er mwyn eu cyflawni. Mae'r cynllun hefyd yn disgrifio'r gwahaniaeth mae'r Cyngor eisiau'i gyflawni i bobl Gwynedd.

Mae copi llawn o'r Cynllun Strategol ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd: www.gwynedd.gov.uk/cynllunstrategol. Mae copiau hefyd ar gael i'w gweld a'u darllen yn Swyddfeydd Cyngor Gwynedd ac mewn llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden ar draws y Sir.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:



Tîm Cynllunio Strategol
Adran Strategol a Gwella
Cyngor Gwynedd
Swyddfa'r Cyngor
Stryd y Jêl
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH



01286 679 788



eichbarn@gwynedd.gov.uk

CYFLWYNIAD

Mae'r Cyngor a'r Sir yn wynebu cyfnod anodd. Bydd llai o arian ar gael dros y blynyddoedd nesaf i gynnal gwasanaethau ac ymateb i anghenion a disgwyliadau pobl Gwynedd. Mae hyn yn golygu y bydd rhaid i'r Cyngor flaenoriaethu ei adnoddau a darganfod ffyrdd newydd a gwahanol o ddarparu gwasanaethau o ansawdd i bobl y Sir yn y dyfodol.

Er gwaethaf hyn, bydd y Cyngor yn parhau i geisio'r gorau i bobl Gwynedd heddiw ac yfory a'u gwneud yn ganolog i bopeth mae'n ei wneud. Felly, gweledigaeth y Cyngor ar gyfer 2013 – 17 ydi:

Cefnogi Pobl Gwynedd i Ffynnu Mewn Cyfnod Anodd

Bydd y Cyngor yn cefnogi pobl Gwynedd i ffynnu drwy ganolbwyntio ar gyfres o flaenoriaethau ar draws meysydd penodol fel y maes plant a phobl ifanc; y maes gofal; maes yr economi a maes yr amgylchedd.

Mae'r Cyngor wedi adnabod 21 o flaenoriaethau i gyd. Y blaenoriaethau hyn yw amcanion gwella'r Cyngor ar gyfer 2014 - 15. Mae'r blaenoriaethau yn canolbwyntio ar y prif faterion bydd y Cyngor yn rhoi sylw iddynt er mwyn ymateb i rai o'r prif gyfleoedd a heriau sy'n wynebu'r Cyngor a'r Sir.

Drwy ganolbwyntio ar y blaenoriaethau hyn, bwriad y Cyngor yw:

- **Gwneud gwasanaethau dydd-i-ddydd yn dda** drwy ganolbwyntio ar y pethau sy'n bwysig i bobl Gwynedd.
- **Sicrhau tegwch i blant, pobl ifanc, oedolion a phobl hŷn bregus** drwy ymyrryd yn gynnar a hybu annibyniaeth.
- **Gwella safonau addysg i bawb** er mwyn cefnogi unigolion i ddatblygu ac agor y drysau i gyfleoedd swyddi lleol.
- **Hyrwyddo a chryfhau'r iaith Gymraeg** o fewn cymunedau ac ymysg grwpiau o fewn cymdeithas, fel plant a phobl ifanc.
- **Hybu economi Gwynedd** drwy greu gwell swyddi a chadw'r bunt yn lleol drwy hybu prynu lleol.

Mae'r Cyngor yn ymwybodol nad yw'n gallu ymateb i'r her ariannol a gwireddu ei flaenoriaethau ar ei ben ei hun. O ganlyniad, bydd y Cyngor yn gweithio'n agos gyda phobl a chymunedau Gwynedd yn ogystal â'i bartneriaid er mwyn rhoi cynlluniau a phrosiectau penodol ar waith i wella gwasanaethau ac i gael y gorau o bob punt o arian cyhoeddus. Bydd hyn hefyd yn golygu cydweithio efo pobl a chymunedau Gwynedd er mwyn eu cefnogi i wneud mwy drostyn nhw'u hunain a lleihau eu dibyniaeth ar wasanaethau'r Cyngor.

BLAENORIAETHAU'R CYNGOR

Mae'r Cyngor wedi adnabod 21 o flaenoriaethau i gyd ar draws chwech maes:

Blaenoriaethau Maes Plant a Phobl Ifanc

- P1: Codi Safonau Addysgol Plant a Phobl Ifanc
- P2: Gwella Profiadau a Chyfleoedd i Grwpiau Bregus o Blant, Pobl Ifanc a Theuluoedd
- P3: Gwella Addasrwydd y Gyfundrefn Ysgolion
- P4: Paratoi Pobl Ifanc yn Well ar gyfer Byw a Gweithio yn Lleol

Blaenoriaethau Maes Gofal, Iechyd a Lles

- GOF1: Ymateb yn Well i Anghenion Pobl sydd Angen Cefnogaeth, Cynyddu'r Gefnogaeth Gymunedol sydd ar gael a Sicrhau Gwasanaethau Gofal Cynaliadwy
- GOF2: Diogelu Plant ac Oedolion
- GOF3: Gwella'r Amodau a'r Cyfleon i Drigolion Gwynedd Allu Byw'n Iach

Blaenoriaethau Maes Yr Economi

- ECON1: Cryfhau Gwytnwch Busnesau'r Sir a Chadw'r Budd yn Lleol
- ECON2: Gwella Ansawdd Swyddi a Lefelau Cyflog
- ECON3: Gwella Mynediad Pobl y Sir i Waith ac Ymateb i Rwystrau

Blaenoriaethau Maes Yr Amgylchedd

- AMG1: Hybu Cyflenwad Addas o Dai ar gyfer Pobl Leol
- AMG2: Lleihau Allyriadau Carbon
- AMG3: Ymateb i Fygythiadau Newid Hinsawdd
- AMG4: Lleihau Faint o Wastraff sy'n Mynd i'w Dirlenwi

Blaenoriaethau Maes Cymunedau Cryf

- CC1: Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg
- CC2: Mynd i'r Afael â Thlodi ac Amddifadedd
- CC3: Hybu Cymunedau Gwledig Cynaliadwy

Blaenoriaethau Maes Diwylliant a Threfniadau Busnes y Cyngor

- DT1: Hybu Diwylliant drwy'r Cyngor Cyfan o Roi Pobl Gwynedd yn Ganolog i'n Holl Waith a'n Penderfyniadau
- DT2: Ymgysylltu'n Effeithiol â Phobl Gwynedd a Sicrhau eu Cyfranogaeth a'u Perchnogaeth o'r Dyfodol
- DT3: Gwneud Defnydd Mwy Effeithlon o Adnoddau, Gan Geisio Lleihau Effaith Toriadau ar Bobl Gwynedd
- DT4: Lleihau'r Galw ar Wasanaethau Drwy Atal ac Ymyrraeth Gynnar

GWIREDDU'R BLAENORIAETHAU

Bydd y Cyngor yn gweithredu cyfres o brosiectau ar draws y chwech maes er mwyn gwireddu ei flaenoriaethau.

Dyma wybodaeth am rai ohonynt:

- Prosiect Hyrwyddo Ansawdd Mewn Ysgolion Uwchradd: Gweithio gydag Ysgolion Uwchradd i sicrhau fod mwy o bobl ifanc yn cyrraedd Safon Trothwy Lefel 2+ a Mathemateg Lefel 2.
- Prosiect Trawsnewid Gwasanaethau Plant: Lleihau'r nifer o blant mewn angen a'r nifer o blant mewn gofal drwy fuddsoddi mwy mewn gwaith ataliol ac ymyrraeth gynnar gyda theuluoedd bregus.
- Prosiect Trefniadaeth Ysgolion: Rhoi cynlluniau ar waith i wella cyflwr ysgolion a chodi ysgolion newydd er mwyn sicrhau fod mwy o blant a phobl ifanc yn cael eu haddysgu mewn amgylchedd ddysgu o ansawdd er gwella safonau.
- Prosiectau Trawsnewid Gwasanaethau Oedolion a Phobl Hŷn: Lletya: Rhoi cynlluniau ar waith i sicrhau fod mwy o bobl yn derbyn cefnogaeth gymunedol; bod mwy o bobl yn cael dewis eang o wasanaethau ataliol; bod mwy o bobl yn cael dewis ehangach a mwy addas o lety ar draws y Sir a bod mwy o bobl yn derbyn gwasanaethau sy'n cwrdd â'u hanghenion yn well.
- Prosiect Cadw'r Budd yn Lleol: Cefnogi busnesau i gystadlu am gytundebau gyda'r Cyngor er mwyn eu galluogi i warchod a chreu mwy o swyddi ar gyfer pobl Gwynedd.
- Prosiect Lleihau Gwastraff: Cefnogi mwy o bobl a busnesau yng Ngwynedd i ail-ddefnyddio, ail-gylchu a chompostio gwastraff.
- Prosiectau Hyrwyddo'r Gymraeg: Rhoi cynlluniau ar waith er mwyn cynyddu'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg gan blant a phobl ifanc y tu allan i'r ysgol, hyrwyddo'r Gymraeg mewn addysg a hyrwyddo'r Gymraeg o fewn cymunedau.
- Prosiect Ffordd Gwynedd: Newid diwylliant a threfniadau busnes y Cyngor er mwyn sicrhau fod pobl yn derbyn gwasanaethau sydd yn cwrdd yn well â'u hanghenion ac yn cynnig gwerth am arian.
- Prosiect Ymgysylltu: Rhoi cyfleoedd i fwy o drigolion Gwynedd ddylanwadu ar benderfyniadau sydd yn effeithio'u bywydau a'u hardaloedd.
- Rhaglen Arbedion: Gweithredu cynlluniau er mwyn gwneud defnydd mwy effeithlon o adnoddau a lleihau effaith toriadau ar bobl Gwynedd.